

### **Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau gwresog i Mrs Cerys a Mr Dewi Roberts ar enedigaeth eu merch fach, Nel Siriol. Rydym i gyd yn edrych ymlaen i weld Mrs Cerys Roberts a Nel Siriol yn fuan iawn.

### **Pnawn Coffi MacMillan**

Cafwyd ddiwrnod llwyddiannus iawn Dydd Gwener, 2ail o Hydref pan gynhaliwyd pnawn o goffi a chacen i godi arian at elusen hollbwysig, elusen MacMillan. Bu Ms Barnes a'r Cyngor Ysgol yn hynod o brysur yn paratoi ac yn croesawu'r rhieni a theluoedd yn ystod y prynhawn. Diolch o galon i Ms Barnes, Anti Shirley a'r Cyngor Ysgol am eu gwaith yn ogystal, diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi ac i bawb a fu'n brysur yn coginio cacennau a bisgedi. Dyma air gan y Cyngor:

Rydym yn ddiolchgar i bawb a gefnogodd pnawn coffi MacMillan yn Neuadd yr ysgol. Casglwyd £253 tuag at yr elusen. Asha, Iestyn M, Ryan, Izzy, Iestyn E, Ffion a Kian.

### **Techniquest**

Cafodd blant dosbarth Llywelyn a Ffrydlas ymwelwyr o ganolfan Techniquest, Glyndŵr yn ystod yr hanner tymor er mwyn dysgu, arbrofi ac ymchwilio'r esgyrn a'r corff. Roedd yn brofiad gwych. Cafwyd digonedd o amser i arbrofi, chwarae, holi, dysgu am nifer o agweddau gwyddonol. Rydym yn edrych ymlaen i wahodd y tîm to er mwyn dysgu am agweddau eraill.

### **PC Meirion Williams**

Cawsom ymweliad gan PC Meirion Williams I addysgu plant y Cyfnod Sylfaen am yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir yn yr ysgol, adref ac yn y gymuned. Mae gan PC Meirion Williams ffordd arbennig o gyflwyno'i neges, ac mae'r plant yn deall y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir.

### **Diolchgarwch**

Cafwyd amrywiol themâu yn ein cyflwyniadau diolchgarwch eleni eto a'r disgyblion yn morio canu! Braf oedd yr Eglwys leol o dan ei sang a chefnogaeth ein rhieni yn werth y byd! Cafwyd gwledd – o'r plant lleiaf un yn y dosbarth Derbyn hyd at y plant hynaf ym Mlwyddyn 6. Prynawn gwerth chweil a diolch i bawb!

### **Ysgol Goedwig**

Mae dosbarth Tryfan blwyddyn 3 Mr Walton wedi mwynhau 6 sesiwn wythnosol yn ysgol goedwig Castell Penrhyn o dan ofal criw 'elfennau gwyllt'. Bu'r plant yn dysgu nifer o sgiliau newydd megis creu tân a choginio yn wyllt yn ogystal ag astudio pryfaid a phlanhigion yr ardal. Uchafbwynt i'r plant roedd cael y cyfle i efelychu gwaith celf 3D Andy Goldsworthy a buodd hwn yn sail i wasanaeth i'r ysgol a rhieni a fwynhawyd gan bawb.

### **Croeso'n ôl**

Hoffem groesawu Miss Ffion Roberts yn ôl i'r ysgol ar ôl ei chyfnod mamolaeth. Mi fydd Miss Roberts yn addysgu blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn ystod cyfnodau CPA.

## **Cymru Cŵl**

Rydym wedi bod yn mwynhau wythnos llawn egni a bwrlwm wrth ddathlu ein Cymreictod yn ystod Wythnos Cymru Cŵl. Roedd yr wythnos yn llawn brwdfrydedd a gweithgareddau sy'n ceisio rhoi balchder i ddisgyblion am eu hiaith a'u cenedligrwydd. Roedd y plant wrth eu boddau yn cael dysgu am ein harwyr Cymraeg o flynyddoedd maith yn ôl megis Llywelyn Fawr ac arwyr heddiw e.e. George North. Diolch yn fawr i Anti Shirley am baratoi cinio gwerth chweil ar ein cyfer er mwyn dathlu.

## **Caffi Coed-y-Brenin**

Fel rhan o'n thema 'Blasus' cafodd Dosbarth Derbyn fore bendigiedig yng nghaffi Coed-y-Brenin, Bethesda. Roedd yn gyfle i weld yr hyn sy'n diwgydd mewn caffi go iawn a nawr mae pawb wrth eu boddau yn chwarae yng nghaffi'r dosbarth, sef Caffi Idwal. Diolch o galon i staff y caffi am eu croeso cynnes unwaith eto ac am y baned wrth gwrs! Diolch hefyd i dad Eban (cwmni tacsï Owen's) am fynd â ni yno ac yn nol yn saff.

